

W975.5
245

YCHYDIG

DDAIONI O NAZARETH,

SEF,

TAIR O GANIADAU:

Y GYNTAF,

DAGRAU HIRAETH,

YN DIFERU AR GERRIG BEDDAU'R SAINT;

YN YR HON Y COFFEIR AM FARVOLAETH

DROS GANT O

Meinidogion yr Efyngyl,

PERTHYNOL I'R

ANYMDDIBYNWYR, EGLWYS LOEGR, TREFNYDDION,

BEDYDDWYR, PRESBYTERIAID, &c.

YR ALL,

ETIFEDDIETH Y BYWYD HWN;

YN YR HON Y TEPLIR

GOLWG FER AR Y BYD HWN, YN EI DRISTWCH A'I

ORFOLEDD;

A gyfansoddwyd ar achlysur o enedigaeth baban.

Y DRYDEDD,

UNDEB Y SAINT YN Y NEFOEDD;

Yr hon sydd wedi ei chyfansoddi ar ddull breuddwyd.

—◆—
Gan DANIEL EVANS, Nazareth.

Y PUMMED ARGRAFFIAD.

Meddyliwch am eich blaenoriaid: y rhai a draethasant i chwi air

Duw: ffydd y rhai dilynwyd, Heb. 13, 7.

Yn y byd gorthrymder a gewch, eithr cymmerwch gysur, myfi
a orchfygais y byd, Ioan 16, 33.

Nac ymrysonwch ar y ffordd, Gen. 45, 24.

Profwch bob peth; deliwch yr hyn sy dda, 1 Thes. 5, 21.

LLANELLI:

ARGRAFFWYD GAN REES A THOMAS, HEOL-Y-DWFR.

15/80

1835.

X20531872X


Accessions No.	15180
Class No.	p WG6.12

RHAGY MADRODD.

GAN mai ar annogaeth llaweroedd o gyfeillion y mae'r llyfr bychan hwn yn cael myned trwy'r wasg, gobeithiaf na bydd testunau ei ymddiddanion, ei iaith sathredig, ei ymddangosiad gwledig a thlawd, na bychandra ei olwg ddim yn foddion i neb dramgwyddo wrtho, nac i edrych yn ddirmygedig arno. Wele efe yn dechreu ei daith i faes eang y byd, megis llong i'r cefnfor mawr, heb wybod pwy dywydd a gwrdda efe; ond gwn y bydd yn llon gan lawer o frodyr a chwirydd crefyddol glywed coffau enwau'r hen dadau sydd wedi eu claddu; y rhai y bu eu gweinidogaeth yn adeiladaeth a chysur iddynt lawer gwaith, a hysbys wyf yn nghanol helbul, cystuddiau, gofidiau, a chroesau'r byd hwn, mai hyfryd gan filoedd i'w meddwl mai glwad yr undeb sydd yn eu haros hwy tu draw i'r dw'r: A llywydd y wlad hono a arddelo y llyfr bychan hwn, i fod o ryw ddefnydd cysur i'r cyfryw ag sydd ar eu taith tuag yno, medd un ag sydd yn dymuno byd da, hedd, a dedwyddwch, byth i bawb o ffryndiau'r Oen.

D. EVANS.

Nazareth, Rhag, 9, 1833.



Dagrau Hiraeth, &c.

- 1 B'le mae rhai eu henwau glywais,
B'le mae ereill rai a welais,
Ar y llawr sy'n eisiau heddyw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 2 B'le mae Prydderch, Ystrad-walter,
Ffyddlon, enwog, yn ei amser,
Glywais gan-waith am ei enw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 3 B'le mae'r duwiol Harris enwog,
O Drefecca, 'n Sir Frycheiniog,
Hyd ei fedd fu ar yr adw',
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 4 B'le mae Rowlands, o Llangeitho,
Yn ei ddydd wnaeth filoedd neidio,
Wrth bregethu'r Oen fu farw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 5 B'le mae Williams, Pantycelyn,
Ger Llan'ddyfri, 'n Swydd Gaerfyrddin,
Bardd rhagorol, hawdd yw bwrw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 6 B'le mae Peter Williams ddoniol,
Cryf esponiwr, call, a buddiol ;
Welodd droion dywydd chwerw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 7 B'le mae Griffith Jones, Llanddowror,
Hael ei dymor yn ei dymor ;
Gwir fod profion ddigon heddyw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 8 B'le mae Morgans, Henllan amgo'd
Peter Jenkins, gwych o'r Brychgo'd,
Price, Llanwrtyd, wrth ei enw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw !
- 9 B'le mae Davies, gynt o'r Aber,
Tawel, diwyd, yn ei amser,

- Nid yw yno'nawr, b'le heddyw,
O'n y gaddfa gydâ'r meirw !
- 10 B'le mae Breese, b'le Titus Lewis,
Dau'n eu diwrnod fu'n llafurus,
I ddyrchafu Crist a'i enw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw !
- 11 B'le mae Morgans, mwyn o'r Dolau,
Henry Thomas, o'r Gwernoge,
Williams, * Capel Isaac, heddyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw !
- 12 O ! Gilganwr, b'le mae Harris,
O ! Lansambled, b'le mae Davies,
Nid y'nt heddyw ar yr adw',
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 13 B'le mae Davies, Abertawe,
'R blaena 'Nghymru ran ei ddoniau,
Gwr bregethai Grist yn groyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 14 B'le mae'r duwiol Jones, Llangana,
B'le mae Thomas Charles, o'r Bala;
Dau ddefnyddiol cymeradw',
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 15 B'le mae 'nawr Elias Davies,
O'r Cwmdu, gwr duwiol dawnus;
Dafydd Evan, † b'le mae hwnw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 16 B'le mae Pugh, o Ffynon Henry,
B'le mae Lewis, Castellnewy',
Eu cyfeillach ni chawn heddyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 17 B'le mae Morris, o Dredegar,
Evans, Soar, Williams, Llanfair;
B'le mae Jones, o Gilfach-ronw',
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 18 B'le mae Davies, wr blodeuog,
Penybanc, ar bwys Llangadog,
Llon gan lawer wel'd ei enw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.

* Awdwr yr Oes Lyfr, a hen Dadeu y Parch. D. Jones, Gwein-
idog presennol Gwynfe: † Abergorlech.

- 19 B'le mae Phillips, o Drewyddel.
 B'le mae D. E. Owen, † Carmel ;
 B'le mae Evans, o Gilcarw,
 O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 20 O! Glandwr, b'le mae'r Griffisiaid? ||
 Oedd ganwyllau'n llosgi'n danbaid,
 Nes oddiyma gael eu galw,
 O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 21 B'le mae'r clodfawr Joseph Harris,
 Jones, Pwllheli, Doctor Lewis ;
 Bowen, Castellnedd, b'le hwnw,
 O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 22 B'le mae Tibot, Esgerdawe,
 B'le mae Davies, gynt o'r Pentre, §
 A'i frawd Thomas, * b'le mae'n cadw,
 O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 23 B'le mae Williams, o'r Ddisgwylfa,
 William Thomas, gynt o'r Bala ;
 Davies, Llundain, b'le mae heddyw,
 O'n y gladdfa gyda'r meirw.
- 24 B'le mae Joseph Sion, wr hynod.
 Gynt fu'u byw yn Pantymango'd, †
 Welir heddyw ond ei enw,
 O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 25 B'le mae Stephan Llwyd, Brynberian
 B'le mae'r enwog Hughes, Kilgerran,
 Richard Tibot, 'nawr sy'n lludw,
 O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 26 O'r Drewen, b'le'r ddau wr hyfryd,
 Evans, i'e, Williams hefyd ;
 B'le mae Griffiths, Llechryd, heddyw,
 O'n y gladdfa gyda'r meirw.
- 27 B'le mae Herring, Aberteifi,
 B'le mae Mathias, heb law hyny ;
 Chwariodd angau yno'n chwerw,
 O'n y gladdfa gyda'r meirw.

† Nai fab chwaer y Parch. T. Griffiths, Hawen.

|| Sef y Parchedigion J. a W. Griffiths. § Pentref Tŷ-gwyn.

* Sef Mr. Thomas Davies, Sardis. + Gerllaw Capel Isaac.

- 28 B'le mae William Evans, Hebron,
Harries, Solfach, Bowen, Saron,
Jones, † o Droedyrhiw, b'le heddyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 29 B'le mae William Llwyd o Gaio,
Dafydd Evan o Llanwinio,
Rees, Llanfynydd, wrth ei enw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 30 B'le mae Griffiths, o Gaernarfon,
B'le mae Dafydd Jones, Treffynnon,
Hughes, o'r Ddinas, hoff ei enw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 31 B'le mae Morris, Ebenezer,
Lewis Rees, a Davies Cymer,
O'r Alltwen, b'le Davies hoyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 32 B'le mae Griffiths, Capel Seion,
B'le mae D. L. Jones a Gibbon,
Davies, Llanybri, b'le heddyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 33 B'le mae 'nawr, Jonathan Powel,
B'le mae David Thomas, || Bethel,
Flwyddau fu dros Grist yn galw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw.
- 34 B'le mae Abel o Gydweli,
Price, a Davies, o Llanedi ;
B'le mae Davies o Llangadw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 35 B'le mae Williams o Llanelli,
Davies, o Rehoboth heddy' ;
Davies, § Carmel, b'le mae'n cadw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 36 B'le mae'r enwog Thomas Davies,
O'r Pantêg, gwr byw llafurus,
Edwards, o Nant-saer, b'le heddyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 37 B'le mae Davies, gynt o Gynwil,
Pibell arian medd rhai'n rhygûl ;

‡ Sef y Parch. Jonathan Jones, gynt o Rydybont.

|| Llansamlet. § Penbre.

- Ni cheir 'nawr ond gwel'd ei enw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 38 B'le mae Lewis, o Dredwstan,
Ab'ram Tibot, glew ei amcan ;
Lewis, Trefdraeth, b'le mae hwnw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 39 B'le mae Ebenezer Morris,
O'r Twrgwyn, b'le Thomas Moses,
B'le mae Thomas Jones, Trebedw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 40 B'le mae Grffiths, Abergorlech,
B'le mae Davies, draw o Drelech,
Rhaid amlygu, er mor chwerw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 41 B'le mae Thomas, Abergwilly,
Evans, Penygraig, cyn hyny,
Davies, Bethlem, hoff ei enw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 42 B'le mae'r doniol Dafydd William,
Merthyr Tydvil, o Adulam ;
Jones * o Bontypwl, b'le heddyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 43 B'le mae'r duwiol Thomas Daniel, †
B'le mae'r addfwyn Jones, ‡ o Peniel ;
Heb hir holi hawdd yw bwrw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw.
- 44 B'le mae Evans, Aberayron,
O ! Gaerfyrddin, b'le mae Gibbon ?
Welai 'run o'r ddau ddyn heddyw,
O'n y gladdfa gyda'r meirw.
- 45 B'le mae Cadben Richards gwiwlan,
Duwiol, dawnus, o Lanstephan,
Welodd waetha'r tonnau garw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 46 B'le mae Evans, § o Gwmllynfell,
Pugh o'r Brithdir, brawd diddichell ;

* Sef y Parchedigion Edmund ac Ebenezer Jones.

† Pencadair. ‡ Mr. Rees Jones, Athraw Ysgol.

‡ Hen dadcu y Parch. D. Evans, gweinidog presennol Llanybri.

- Ishmael Jones o'r gogledd heddyw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 47 B'le mae Meiler, Rhosycaerau,
Richards, *Tierseross*, b'le yntau ;
Griffith Jones || gwr hardd ei ddelw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 48 B'le mae'r duwiol Jenkin Morgan,
Pentre, Bethel, Cefn-arthan,
Jenkin Lewis * athraw clodwiw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 49 B'le mae'r duwiol Jones Trawsfynydd,
Jones o Dinbych, Jones Dre'newydd,
Jones o Nebo, b'le mae hwnw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 50 B'le mae Roberts (gwnewch fynegu),
Llanbryn-mair sy'n eisiau heddy' ;
Deimlodd ddyrnod angau gwelw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 51 B'le mae Rowlands || nefol ddoniau,
Gwlithog iraidd ei bregethau ; || *Cwmlllynfell*,
Cyfaill calon Crist a'i ddelw,
O'n y gladdfa gydâ'r meirw.
- 52 B'le mae'r awr'on, Charles, Caerfyrddin,
Yn y winllan, gweithiwr diflin,
Cryf gynheddfau, bywyd gloyw,
O'n y gladdfa, gydâ'r meirw.
- 53 Lluoedd lawer heb law hyny,
Mewn byr ennyd allwn enwi,
'N bridd sydd heddyw'n llwch a lludw,
Yn y gladdfa gydâ'r meirw.
- 54 Arglwyd cymmorth fi a 'mrodyr
Llesg sydd 'nol ar faes y frwydr,
Gyraedd cyrrau tir y cadw,
Lle nad ofuwn claddfa'r meirw.
- 55 Ffiaidd fyddo genym bechu,
Hoff bob amser Grefydd Iesu ;
'N heneidiau fyddo'n fawr eu helw,
Pan b'o'n cyrph ni'n ngladdfa'r meirw.

|| Rehoboth, gerllaw Castellnewydd Emlyn.

* Castellnewydd-ar-wyseg.

- 56 Braidd na chlywaf sw'n telynu,
 Buddugoliaeth myrdd aeth adreu,
 Ofnodd yn yr anial garw
 Ganwaith gwn hen gladdfa'r meirw.
- 57 O! mor llon ar fynydd Seion,
 Fydd cael cwm'nir holl dduwolion,
 Gyda'r Iesu ar ei ddelw,
 Ddiwrnod gadael claddfa'r meirw.
- 58 Cyrph ysbrydol llwyr dilygredd,
 Heb un anaf, O mor fonedd,
 Iach heb boen, dim gwyn na gwayw,
 Wedi gadael claddfa'r meirw.
- 59 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
 Uwchlaw rhifo'n cwrdd 'run boreu,
 Ar ael gwynfyd bryn y cadw,
 Maesydd bywyd, neb mwy'n marw.

Etifeddiaeth y Bywyd hwn.

- 1 Clyw fy maban, ti wynebaist,
 Ar ryw fyd helbulus iawn,
 Byd o groesau galar beunydd,
 O foreuddydd hyd brydnawn;
 Blinder ydyw'r etifeddiaeth,
 'Nol tystiolaeth bibl Duw,
 Er cwmp Eden sy' i blant Adda,
 Bawb tra byddont yma'n byw.
- 2 Profaist radd o hyny'n barod,
 Hawdd yw 'nabod wrth dy lef,
 Profi 'chwaneg os cei aros,
 Ddyddiau hir os tan y nef;
 Ti wnest boen i'th fam a'th ddygodd,
 Chwariodd bywyd ar y traeth,
 Er cymmeryd ffwrdd ei aden,
 Gall'sid meddwl gan mor gaeth.
- 3 Dyma'r byd mae'r march ar brydiau.
 Draw'n gweryru ar y ma's,
 Udgyrn pres i'r gad yn galw,
 Gwyr y gloyw gleddyf glâs;
 Er ergydion trwm y magnel,
 Gwawr y mwg a gwres y tân,

- Meibion, gwragedd, tyner fagwyd,
O mor gaeth, rhaid rhuthro'n mla'n.
- 4 Dyma'r byd lle mae carcharau,
Ha'rn gadwynau, cloiau dur,
Blin gerydd-dai am droseddau,
Cyffion, loesau, poen, a chur ;
Tywyll gelloedd hen lofruddion,
Ogof lladron hyll gerllaw,
Deddf ddirmygwyr, gwlad derfysgwyr,
Gwrddir yma, gwrddir draw.
- 5 Dyma'r byd mae lladd a llosgi,
Eu merthyru fwy na mwy,
Poenwyd enaid Lot yn Sodom,
Gwawdiwyd Samson tan ei glwy' ;
Rhoddwyd Jerem' yn y ddaear,
Dôr anhyddgar arno 'nghau,
Ffwrnwyd Mesach yn nhir Babel,
Gwelwyd Daniel yn y ffau.
- 6 Dyma'r byd lle rhwygwyd gwragedd
Beichiog lawn a chleddyf no'th,
Rhoddwyd lluoedd, mae tystiolaeth,
I farwolaeth yn y groth ;
Yn Nghaersalem a Samaria,
Teimlwyd pwysau'r newyn blin,
Tyner fam yn berwi'r baban,
Er ymborthi arno'i hun.
- 7 Dyma'r byd bu myrdd o gaethion,
Dan y fflangell drom erio'd,
Ol y danffon ar y ddwyfron,
Cadwyn greulon am y dro'd ;
Gwaedgwn anwn uwch eu penan,
O las-foreu hyd yr hwyr,
Swn y chwip wnae'r galon grynu,
Gwn a thoddi fel y cŵyr.
- 8 Dyma'r byd bu † boneddigion,
Tywysogion coron nen,
Dan y llif, y cledd, a'r meini,
Yn ymboeni eu hoes i ben ;
'Rhyd anialwch gwag mynyddig,
Rhwing bwystfilod gwyllt y ma's,

† Gwel Heb. 11, 36, 37, a 38.

- Hwy gaent fwy o garedigrwydd,
Na chan ddynion drwg diras.
- 9 Dyma'r byd gwnawd pen coronog
Teyrn yn garpiog lawer pryd,
Da cael bara er cardota,
Hwnt ac yma led y byd ;
Crogwyd Haman wedi'r gwisgoedd
Aur, a'r gwleddoedd, perlau pur,
Ar y pren rhwng nen a daear,
Draw'n rhyw gwrr o'r dwyrain dir.
- 10 Dyma'r byd mae 'stol pabyddiaeth
A phaganiaeth hen ei hun,
Pob gau-dduwiaeth yn teyrnasu,
Yn mynwesau teulu dyn ;
Gwadu'r iawn, iselu'r aberth,
Gwawdio'r iachawdwriaeth wiw,
Ac mae myrdd ynghiliau'r galon,
Ddwe'd yn ëon † "does un Duw !"
- 11 Dyma'r byd mae anghyfiawnder,
Trwm orthrymder fwy na mwy,
'Speilio gweddwon, plant ymddifaid,
Weithiau'n goflaid ar y plwy' ;
Llid a malais yn gormesu,
A chenfigen fel y llif,
Wedi 'sgubo ffwrdd || fywydau,
Heblaw enwau da'n ddirif.
- 12 Dyma'r byd mae twyll a rhagrith,
Gan gyfeillion chwyth erio'd,
Heddyw'n frenin cei dy godi,
'Foru'r gwaetha' fyth cei fod ;
Gwerthwyd Arglwydd yr arglwyddi,
Gynt gan un o'r teulu hyn,
Am bris isel iawn yn Asia,
Draw ar bwys Calfaria fryn.
- 13 Dyma'r byd lle mae'r cholera,
Geri marwol gwialen Duw,
Wrth y miloedd 'leni'n Lisbon,
Lawr yn tòri dynion byw ;
Fe fu'n Nghymru'n fras ei gamrau,
Llynedd chwiliau fryn a bro', (1832)

- 'N Abertawe a Llanelli,
Gwn fod llu'n hir gofio'r tro.
- 14 Dyma'r byd mae terfysgiadau,
Brwnt effeithiau colli gwa'd,
Dim mwy cariad i fywydau,
Nag sy'r glaswellt tan fy nhra'd;
Cofia Merthyr fis Mehefin,
Deunaw cant a thri deg llawn,
Un yn 'chwaneg, fel 'rwy'n bwrw,
Gostiodd ofid chwerw iawn. (1831.)
- 15 Dyma'r byd mae swn taranau,
Dyma'r byd mae'r mellt yn gwau,
Tân yn difa da a defaid,
Holl gynhwysiad cyfoeth rhai;
Dyma'r byd mae oesol eira,
Ætna boeth, a daear-gryn,
Wedi llyngcu trefydd cyfain,
Lawr ar unwaith iddi ei hun.
- 16 Dyma'r byd y berwa'r moroedd,
Gan rhyw danllwyth fawr cyn hir,
Duwiau'r cybydd cul gwnant doddi,
'R dydd yn llosgi byddo'r tir;
Hyllt y creigiau, meini mawrion,
Neidia'r bryniau fel yr wyn,
Annuwiolion gan eu hofnau,
Gryma'u penau fel y brwyn.
- 17 Ond er cynddrwg yw'r ysgerbwd, §
Gwenwyn pechod trwyddo'i gyd,
'O'r bwyntawr * ca'wd weithian fara,
A melusdra swpiau 'nghyd;
Er fod diafol a'i berth'nasau,
Ynddo 'rioed yn chwaraun chwyth,
Mae ynddo bethau er eu gwaetha',
Hoff fel manna'r gaenen wlith.
- 18 Ynddo codwyd weithiau gaethion,
Fel o'r cyffion ar eu tra'd,
I'r modrwyau aur a'r perlau,
Gwisgoedd goreu blodau gwlad;
Mewn breninol addurnialau,
Gwnaen' dramwyo-bro' a bryn,

Fe all Mordecai ac Esther,
Job a llawer dystio hyn.

- 19 Ynddo chwariai merched Israel,
Er goruchel foliant Nêr,
Gydâ'r dawns a'r gwiw anthemau,
'N dorf ar brydiau'r dympan bêr;
Boreu boddwyd claddwyd Pharao
Ffol a'i eiddo 'nghladdfa'r llyn,
Ar y traeth 'roedd sŵn tympanau,
Torf am oriau'r diwrnod hyn.
- 29 Ynddo chwariodd llau a llyffaint,
Llewod, cigfrain, haul, a llor,
Gwlaw ac eira, oerwynt garw,
Trai a llanw, tir a môr;
Holl blanedau cylch y Nefoedd,
Fel gwroniaid lawer gwaith,
Er cael Seion o'r anialwch,
I fro'r heddwch pen y daith.
- 21 Ynddo gwelwyd gweision gwylaidd,
Palas bonedd gwynfa fryn,
Weithiau'n talu ymweliadau,
I bersonau'r ochr hyn;
Lot am noswaith yn Sodoma,
Jacob ger Iorddonen fawr,
Paul a miloedd heblaw hyny,
Ga'dd gwmpeini teulu'r wawr.
- 22 Ynddo gwelwyd teyrn gogoniant,
Dri deng mlynedd tair mae'n wir,
Yn ymlwybro broydd a bryniau,
Môr a thonau'r dwyrain dir;
Rhoddi iechyd rhad i'r cleifion,
Codi'r meirwon mud yn fyw,
Gweitho iachawdwriaeth miloedd,
Myrdd o bob iaith, llwyth, a lliw.
- 23 Ynddo'n helaeth mae trysorau,
Gwerthfawr berlau tlysau drud,
Gloddiwyd allan o fwyn gloddiau,
Hyfryd fryniau grâs i gyd;
Modrwy auraidd hoff a thelyn,
Coron brenin gemau'r ne',

- 'N rhadlawn roddir i bechadur,
 Gwaetha'r gogledd dir a'r de'.
 24 'Fallai'n fuan o fy maban,
 Rho'ir dy fam a finnau 'ngudd,
 Yn y beddrod hirnos wely,
 Dan oerlenni llaith o bridd;
 Tithau'n aros heb dy symud,
 Ar ein hol flynyddau llawn,
 Weithiau cur a phoen a gofid,
 Weithiau hawddfyd 'chydig iawn.
- 25 Ond os felly Brenin Israel
 Fyddo'n fugail arnat fyth,
 Pleidiwr tadol O mor dirion,
 Cyfaill ffyddlon nid rhyw rith;
 Aden ddiddos y Cyfryngwr,
 I'th gysgodi rhag y llid,
 Dinas Salem it' fo'n atre',
 Gwedi angau gwyn dy fyd.

Undeb y Saint, &c.

Ryw foreu yn fy ngwely ar ymyl torri'r wawr,
 Breuddwydiais freuddwyd rhyfedd, 'rwy'n cofio'r syl-
 wedd 'nawr,
 Meddyliwn 'mod i'n aros wrth un o byrth y Ne',
 Yn edrych ar y lluoedd oedd yno'n llanw'r lle.
 'Roedd yno rai o Affric ac o Americ fawr,
 O Ewrop, Asia lawer, yn ddysglaer fel y wawr; [wiw,
 Pob un yn cario'r Palmwydd yn arwydd congwest
 A miloedd o delynau 'n cael chwaraeu i ganmol Duw.
 Gofynais yn grynedig i gerub oedd gerllaw, [draw.
 Pwy sect neu blaid sy fwya'n gwneud fynu'r dyrfa
 Pa un a Eglwys Loegr, Dissenters, neu Wesle'd,
 Trefnyddion, Presbyteriaid, neu deulu'r Bedydd ered?
 Gwnaeth yntau'n llym fy ateb, a'i lygaid fel y tân,
 Nes gyru arnaf g'wilydd roi'r fath gwestiynau 'mla'n;
 Paid son 'be fe am bleidiau, does yma bleidiau 'rio'd,
 Plaid neb byth chwaith ni arddelir ond pleidwyr Crist
 a'i nôd.

Ar hyn mi deflais olwg mwy manol nag o'r bla'n
 Debyg'swn yn fy mreuddwyd i ganol teulu'r gân,

Ac erbyn i mi edrych y cwm'ni gwych ddigel,
'Doedd yno neb yn 'nabod hen *lady party sel*.

'Roedd Iuddew a Samariad heb un ymrianiad ffol,
'Roedd Scythiaid a Barbariaid mewn cariad gol ynghol;
A'u tannau am y tynnaf gylch ogyrch yn y nen,
Yn chwareu mawl i'r Iesu heb gulni llwyd un llen.

'Chai yno neb mo'i barchu waith modrwy ar ei fys,
Yn fwy na rhyw un arall heb fodrwy fyddai'n is;
Gadawyd gwagedd felly ar ol i deulu'r glyn,
'Roedd pob un 'run anrhydedd ar fonedd Seion fryn.

'Roedd Abra'm, ben etifedd gwlad Canaan, Asia fras,
Yn ymyl bwrdd y bywyd yn canmol golud gras;
A Lazarus fu'n cardotta rhag gwaetha'r newyn du,
Yn gynnes yn ei fynwes mor bell deallais i.

'Roedd yno bawb yn credu fod crefydd Crist o werth
Dioddef drosti groesau amserau'r creigydd serth;
Fod gydâ' i'n glyd o galon yn storom arwa'r hin,
Heb dderbyn stwff y gelyn, ond dilyn Mab y Dyn.

'Roedd yno bawb yn caru dedwyddwch naill y llall,
O galon ac ymddygiad mewn cariad pur diball;
Och'neidio wedi darfod, a'r dagrau'n mhell i gyd,
Heb neb o'r dorf mewn dychryn na byth yn waeth ei fyd.

'Doedd yno neb gai lawnder, a'r llall ond prinder mawr
Fel deiliaid stad y cwdwm sy 'ngwlad y peiriau 'nawr;
Pob llestr hyd yr ymyl yn llawn o'r nefol wledd,
Heb gwrdd â glan na gwaelod ond nofio byth mewn hedd

Gerllaw y porth wrth aros fy mantais oedd yn fwy,
Gael gwybod rai dderbynid i'r ddinas sanctaidd pwy;
'Roedd teulu glân y cerbyd, a chwm'ni'r mulod mân,
Yn cael eu derbyn yno ar goedd heb ddim gwahan.

Er cymmaint oedd yn perthyn i'r un gymdeithas fawr,
O Ogledd, De', Gorllewin, ac eitha'r Dwyrain wawr,
'Doedd yno'n ddrwg i'w lygru byth drafod pethau blin
'Doedd angen chwaith o herwydd, 'doedd yno'i gael yr un

'Roedd yno bawb'r un oedran, 'run anian, a'r un iaith,
'R un gân i gyd, 'r un enw, 'r un ddelw, a'r un waith,
'R un brenin, 'r un dedwyddwch, heb dristwch, briw,
nâ pho'n.

'Run stad, 'run wlad, 'run gariad, 'run alwad at yr O'n.

Rhyfeddais wel'd yn eisiau bersonau lawer iawn,
Feddyliais gwrddyd yno, os byth myn'd yno gawn;
Gwel'd eraill na feddyliwyd mewn gwynfyd fawr eu bod
Rhyfeddais wel'd fy hunain yn fwy nâ neb erioed.

Nid glendid na gwaedoliaeth, nid synwyr helaeth maith
Gwybodaeth, elusenau, na gwisg moesoldeb chwaith;
Nid cyfoeth a meddiannau, gardd flodau plant y byd,
Gymhwysodd neb ddaeth yno erioed ond gras i gyd.

'Roedd cariad Duw'n rhy gynnes, pob mynwes drwy-
ddi'n dân,

Chaiff etifeddes rhagrith le byth i weithio 'mla'n;
Hen ragfarn gul naill lygad, sy'n codi muriau mawr,
Rhngwng teulu Duw a'u gilydd er gw'radwydd 'rhyd y
llawr.

'Doedd yno un enllibwr, trwy holl ororau'r nen,
Er niwed rhwng cyfeillion neb ddwe'dai air o'i ben:
Doedd yno byth wel'd beiau'n rhinweddau gorau nawr
'R rhinweddau'n fai bryd arall fel anghall blant y llawr.

Nid caru'n wresog heddyw, a foru'n tynu 'nol,
Nid weithiau rhyw ymrafael, ac weithiau gol ynghol:
Ond ar egwyddor cariad mai'r cwbl yno'n troi,
A phob peth i'r gwrthwyneb oddiwrth y pyrth raid ffoi.

'Roedd yno bawb Crist'nogion o galon fel un llaw,
Heb neb yn dweyd santeiddiach wyf fi na thi, sa draw,
'N sect ni o bawb sy'n dilyn y Brenin Adda'r ail,
Doedd yno neb yn siarad hen sothach mor ddisail.

'Roedd Henry, Wesley, Rowlands, a Whitefield wrth
y bwrdd,

John Gill a Richard Baxter, ar swper wedi cwrdd,
Ac eraill ryw fyrddiynau nas gwn i ddim pwy faint,
I gyd yr un daliadau trwy holl gymmanfa'r saint.

Cân newydd yn eu genau, a'u gynau'n wyn eu lliw,
Mewn cariad ac anwylddeb yn llewyrch wyneb Duw,
Ond tra 'ro'wn yno'n aros, debygsw'n wrth fy modd,
Dihunais yn fy ngwely, ac wele breuddwyd o'dd.

*Na fydded i neb argraffu y Llyfr hwn, nac un o'r Caniadau sydd yn-
ddo, heb ganiatâd yr Awdwr, rhag ofn y gona swyddfa Cyfreithw'r iddo
edifarhau am ei eondra.*